

**Trosolwg o chwaraeon a'r
gymdeithas**

**Trafodwch y
gosodiad:
'Ddim y gêm sydd
wedi newid, ond y
chwaraewyr'.**

A. Trosolwg moeseg a gwyredd

- Mae pedwar dimensiwn i foeseg chwaraeon; aberthion; anelu at ragoriaeth; chwarae drwy'r poen; dim terfyn i bosibiliadau
- Ym moeseg chwaraeon, mae'r athletwr yn aberthu ar gyfer 'y gêm'. Mae perfformwyr yn herio eu hunain i'r eithafion corfforol a meddyliol pellaf. Dyma'r pwynt pan fydd eu hymddygiad a'u cyfranogiad yn gallu cael ei lygru.
- Mae gwyredd yn golygu unrhyw ymddygiad sy'n wahanol i'r norm cymdeithasol neu gyfreithiol canfyddedig, neu i'r norm mewn chwaraeon.
- Ers i'r Gemau Olympaidd symud o'r byd amatur i broffesiynoldeb yn yr 1980au, ac ers i fasnacheiddio, Americaneiddio a'r foeseg Lombardaidd ddod yn rhan o chwaraeon cystadleuol, mae'n ymddangos bod y pwyslais wedi symud o sbortsmonaeth i drechafwriaeth.
- Mae dopio yn golygu defnyddio sylweddau anghyfreithlon i wella perfformiad athletwyr. Symbylyddion (stimulants) a hormonau yw'r mwyaf cyffredin o'r rhain.
- Defnyddir chwaraeon hefyd i hybu gwerthoedd cadarnhaol yn y gymdeithas yn gyffredinol. Drwy ddangos y gwerthoedd hyn ar y cae ac oddi ar y cae, mae pobl ym myd chwaraeon yn datblygu'n fodelau rôl cadarnhaol, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc.
- Mae'r Pwyllgor Olympaidd Rhyngwladol (IOC: International Olympic Committee) yn diffinio'r gwerthoedd craidd Olympaidd fel a ganlyn: penderfyniad, parch, angerdd, gwaith caled, gonestrwydd.

B. Trosolwg o'r uned – o gyfranogiad torfol i ragoriaeth

- Mae manteision gweithgarwch corfforol yn cynnwys gwella eich lles corfforol, seicolegol a chymdeithasol.
- Mae llywodraethau wedi nodi hefyd bod manteision ehangach i weithgarwch corfforol, gan gynnwys: lleihau troseddu; gwell integreiddio cymdeithasol, ysbryd cymunedol, a chymwysterau; adeiladu cymeriad a chynyddu balchder unigol; balchder cenedlaethol; propaganda gwleidyddol (yr Undeb Sofietaidd yn y 70au).
- Mae'r pyramid cyfranogiad chwaraeon yn cynnwys y camau sylfaenol, cyfranogiad, perfformiad ac elît.
- Camau gwahanol y broses nodi talent, gan gynnwys defnyddio profion ffitrwydd, profion sy'n seiliedig ar sgiliau, sgrinio symudiadau gweithredol, sgrinio meddygol, asesiad ymddygiad ac asesiad seicolegol a ffordd o fyw perfformiad (i asesu addasrwydd mewn amgylchedd chwaraeon cystadleuol).
- Mae nifer o sefydliadau yn goruchwylio chwaraeon yn y DU.
- Mae cyrff llywodraethu cenedlaethol yn trefnu rheolau, cystadlaethau a strwythur ar gyfer y gamp, e.e. WRU ac FA.
- Chwaraeon Cymru/Sport England/Sport Scotland – yn gyfrifol am ddatblygu chwaraeon neu ariannu campau yn y Gemau Olympaidd neu Gemau'r Gymanwlad nad ydyn nhw mor gyfoethog, e.e. Jwdo.
- Yr Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuencid – elusen a sefydlwyd i hyrwyddo cyfranogiad torfol mewn amrywiaeth o chwaraeon.
- UK Sport – yn gyfrifol am chwaraeon elît, chwaraeon Olympaidd ac atal dopio.
- Mae'r ffactorau sy'n effeithio ar gyfranogiad unigolion yn cynnwys: cyfle, e.e. yr arian neu'r amser sydd ar gael; darpariaeth, e.e. cyfleusterau; hyder, e.e. hyder i gymryd rhan mewn gweithgarwch.
- Mae anghydraddoldeb a gwahaniaethu mewn chwaraeon yn aml yn gysylltiedig ag aelodau penodol o'r gymdeithas. Mae'r rhain yn cynnwys: lleiafrifoedd ethnig; menywod; yr henoed; pobl anabl.

- Mae prosesau Nodi Talent yn cael eu defnyddio i geisio darganfod perfformwyr elît y dyfodol. Mae'r profwyr yn chwilio am nodweddion corfforol a seicolegol penodol mewn perfformiwr.
- Mae UK Sport wedi sefydlu nifer o gynlluniau nodi talent, i geisio dod o hyd i athletwyr Olympaidd y dyfodol.
- Mae UK Sport wedi sefydlu cynllun datblygu talent o'r enw'r Rhaglen Safon Fyd-eang (*World Class Programme*). Mae ganddi 3 lefel: Talent Safon Fyd-eang (*World Class Talent*); Datblygiad Safon Fyd-eang (*World Class Development*); Podiwm Safon Fyd-eang (*World Class Podium*).
- Mae'r feirniadaeth o drefniadaeth chwaraeon yn y DU yn cynnwys: gormod o sefydliadau a chyrrff llywodraethu heb fawr o strwythur; fawr ddim cyfathrebu rhwng sefydliadau; rolau a chyfrifoldebau tebyg gan sefydliadau gwahanol; arian yn cael ei wastraffu gan fod cynifer o sefydliadau'n bodoli.

C. Trosolwg o'r cyfryngau, masnacheiddio a globaleiddio

- Mae chwaraeon masnachol yn cael eu trefnu a'u chwarae i wneud arian fel digwyddiadau adloniant. Swyddogaethau'r cyfryngau yw: hysbysu, addysgu, dehongli, difyrru, hysbysebu.
- Mae chwaraeon a pherfformwyr chwaraeon yn cael eu hystyried yn nwyddau y gellir eu prynu a'u gwerthu, a'r farchnad hon sy'n gwthio datblygiad chwaraeon.
- Mae corfforaethau yn deall pwysigrwydd chwaraeon fel cyfrwng marchnata a brandio ar gyfer eu cynnyrch. Mae gan athletwyr a thimau chwaraeon gapasiti marchnata byd-eang.
- Mae'r cyfryngau (gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol) yn cynnig mwy o gyfleoedd i ryngweithio nag erioed o'r blaen. Mae hyn wedi creu diwylliant o wylwyr na fyddan nhw erioed wedi bod yn gweld chwaraeon byw.
- Nawdd yw'r cytundeb rhwng cwmni a digwyddiad/camp/athletwr, lle mae'r cwmni yn rhoi arian, neu'r swm cyfatebol mewn nwyddau, yn gyfnewid am yr hawl i gysylltu enw'r cwmni â'r cynnyrch.
- Y triongl euraid – y cyfryngau, y noddwr a'r gamp. Mae pob un o'r partneriaid hyn yn gwneud cyfraniad cyfartal i effeithiolrwydd y lleill. Mae'n ymddangos ei bod hi'n amhosibl i chwaraeon elît oroesi heb ddibynnu ar y ddau bartner arall.
- Gyda swm sylweddol o arian a thrwy ddod â chwaraeon i'r amlwg, mae cynnydd wedi bod o ran dramateiddio chwaraeon: creu cyffro ynghylch gornestau ym myd chwaraeon a secsbloetio.

Cydnabyddiaethau

Adran	Is-adran	Cydnabyddiaethau
CLAWR	Chwaraewyr rygbi	David Rogers / Getty Images